

Cymharodd astudiaeth SenITA Therapi Integreiddio Synhwyrdd (y cyfeirir ato yma fel SIT) â'r gefnogaeth a gynigir fel arfer i blant ag awtistiaeth ac anawsterau prosesu synhwyrdd.



Therapi sy'n seiliedig ar chwarae yw SIT gyda'r nod o helpu plant ag anawsterau prosesu synhwyrdd. Roedd yn cynnwys 24 o sesiynau wyneb yn wyneb mewn clinig therapi galwedigaethol, ac yna ddwy alwad ffôn gyda'r gofalwr. Fe'i darparwyd gan therapyddion galwedigaethol a oedd wedi cael hyfforddiant penodol ar y math hwn o therapi.

Y dulliau y gwnaethom eu defnyddio

- Gwnaethom recriwtio plant a'u gofalwyr o Gymru a Lloegr.
- Gallai plant gymryd rhan yn yr astudiaeth os oeddent wedi cael diagnosis o awtistiaeth, os oedd ganddynt anawsterau prosesu synhwyrdd a'u bod mewn addysg gynradd brif ffrwd (4-11 oed).
- Rhannwyd y plant a gymerodd ran ar hap yn ddau grŵp. Cafodd hanner y plant SIT am 26 wythnos tra bo'r hanner arall yn parhau i gael eu gofal arferol.
- Diffiniwyd gofal arferol fel aros am wasanaethau neu gael ymyriad a oedd yn canolbwyntio ar faterion synhwyrdd ond nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer integreiddio synhwyrdd.
- Gofynnwyd cwestiynau i ofalwyr pob plentyn am ymddygiad eu plentyn ar ddechrau'r astudiaeth ac eto 6 a 12 mis yn ddiweddarach.
- Y mesur yr oedd gennym ddiddordeb ynddo oedd ymddygiad plant. Gwnaethom ystyried mesuriadau eraill hefyd.
- Casglwyd gwybodaeth am y math o ofal a roddwyd i'r plant yn y grŵp gofal arferol.

Yn ogystal, gwnaethom rywfaint o waith ar ddechrau'r astudiaeth i fapio pa fath o ofal arferol roedd y plant yn ei gael. Gwnaethom hyn drwy drafodaethau grŵp a chyfweliadau gyda therapyddion a thrwy arolwg i rieni/gofalwyr. Bu rhai rhieni a therapyddion a gymerodd ran yn yr astudiaeth hefyd yn cymryd rhan mewn cyfweiliad i drafod yn fanylach sut brofiad oedd cymryd rhan. Gwnaethom gofnodi'r cyfweliadau hyn a chrynhoi eu meddyliau.



Canlyniadau'r astudiaeth

Cymerodd cyfanswm o 138 o blant a 138 o ofalwyr ran yn yr astudiaeth. Rhoddwyd SIT i 69 o blant (yn ogystal â'u gofal/gweithgareddau arferol) a pharhaodd 69 o blant gyda'u gofal arferol yn unig. Cyflwynwyd yr ymyriad gan 16 o therapyddion galwedigaethol mewn clinigau arbenigol.

Darparodd therapyddion y sesiynau SIT yn dda a dywedodd gofalwyr a therapyddion eu bod wedi gweld rhai gwelliannau mewn perthynas â nodau a osodwyd gan y gofalwyr. Fodd bynnag, pan wnaethom edrych ar y cwestiynau penodol am newidiadau yn ymddygiad y plant neu'r ffordd roeddent yn gweithredu o ddydd i ddydd a'r straen ar y gofalwyr, nid oedd SIT yn sylweddol well na'r gofal arferol ac mae'n opsiwn drutach.



Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau'n awgrymu na ddangosodd SIT fudd clinigol mewn ystod o ganlyniadau (ymddygiadol, gweithredol, cymdeithasol, ansawdd bywyd a straen gofalwyr) y tu hwnt i ofal arferol ar gyfer plant ifanc ag awtistiaeth ac anawsterau prosesu synhwyraidd.

Ein casgliadau

Hwn oedd y treial mawr cyntaf lle cyflwynwyd SIT yn unol â llawlyfr.

Yn gyffredinol, ni allwn ddweud bod SIT yn ddefnyddiol i bob plentyn ag awtistiaeth ac anawsterau prosesu synhwyraidd gwahanol. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol i rai plant ganolbwyntio ar broblemau neu nodau gweithredol penodol, ond mae angen mwy o dystiolaeth.



Beth nesaf?

Mae angen mwy o ymchwil i ganfod y ffordd orau o gefnogi plant awtistig ag anawsterau prosesu synhwyraidd a pha ymyriadau allai weithio iddynt.



I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

Understanding the support experiences of families of children with autism and sensory processing difficulties: A qualitative study <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/hex.13465>

Adroddiad llawn yr astudiaeth <https://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/hta/TQGE0020#/full-report>